Wylfa Site Director's Report

12 October 2017

Stuart Law
Site Director

Site Director's Summary (June – September 2017)

Wylfa site operations

The summer months have been a challenging period for defuelling due to a number of pile cap equipment faults and flask filling restrictions caused by persistent problems with the flask handling crane. We have only been able to keep one of the three key defuelling processes in operation for most of the time. However, we have taken the opportunity to carry out a number of engineering improvements and pile cap housekeeping activities to reduce fire and conventional safety hazards during the downtime.

As of 27 September, the reactors are 45% defuelled overall. There are 7,544 spent fuel elements in the dry store cells ready to be flasked, 33,574 spent fuel elements remaining in reactor 1 and 19,769 in reactor 2.

Dry Store Cell 4's (DSC4) nine tonne concrete plug was lifted in July for the first time since the cell was constructed and commissioned in the early 1970's. Since then, the project team have been getting to grips with working in C3 conditions to deploy the recovery tools 7m into the cell and rehearse the delicate, precise manoeuvres needed to cut and remove 37 skip tubes containing intermediate level waste. An ONR and Environment Agency readiness review was conducted in September which resulted in the regulators granting permission for the project to commence retrieval operations w/c 2nd October.

The concrete plug being lifted



The overcoring tool above a skip tube

The ONR visited site on 19 July to see the revised Asbestos Management Plan in action. From this ONR were able to see that Magnox has met the requirements of the formal Improvement Notice issued in April.

There are three contracting teams supporting the asbestos programme of works:
Exova - who carry out asbestos air tests and inspections.

Hertel - who are responsible for asbestos remediation work all over site, except the turbine hall.

Kaefer – whose team of 80 personnel are responsible for the bulk removal and management of asbestos in the turbine hall. This package of work includes removing all the lagging from the pipes that supplied steam to the turbines from both reactor's 39m long pipebridges.



Interserve was appointed as Wylfa's Hard Services Facilities Management supplier on 1 June. They are now responsible for ensuring core maintenance (previously carried out by Civil and Electrical contractors) is completed as per the station plan in addition to providing support services.

Nuclear Safety and Environment Council

The site hosted one of the regular meetings of the Magnox Nuclear Safety and Environment Council and provided a site tour for several external members on the following day. Their comments included:

- Pleased to recognise knowledgeable and enthusiastic staff when walking round the site.
- Areas generally looked well cared for.
- Good engagement with site safety representatives.
- The site tour clearly illustrated the challenges to be dealt with by the Asbestos Management Plan – more external benchmarking was recommended for site staff.
- Appreciated the maintenance challenges being posed by the age and complexity of the fuel route equipment and supported the honest and pragmatic estimates of programme duration which were presented.

The site was pleased to receive the support and advice from external members, and will follow up some more detailed suggestions by further discussion with the asbestos programme.

Maentwrog site operations – Andy McAteer

Maentwrog's annual four week outage commenced on 9 June when both generators were shut down at 9.00am following extended generational periods to lower the lake to its normal pre-outage minimum level. This is to permit its gradual refilling over the following four weeks whilst the outage is in progress. The control gate at the main dam was lowered by simulating an emergency operation, and the draining of the tunnels and the pipelines commenced at 9.30am, this was completed in time for the outage to commence on 12 June.

Dyler & Butler tunnelling contractors carried out planned repairs to both tunnels. Site staff undertook various inspections to the low pressure pipeline

Môn Apprentices, on placement at Wylfa, joined the site team, thereby gaining differing experiences in their skill training.

On the 4 July, re-flooding operations commenced with the tunnels and pipelines recharged within 24 hours. Both generators were returned to service on 6 July.

Rainfall from the 1 April to 27 September was 893.1mm.

Electricity generation is currently ahead of target and availability has been 73 % which is as planned to include the outage period.

Environment, Health, Safety, Security and Quality (EHSS&Q)

Safety statistics 3 October 2017

Total recorded incident rate (TRIR): 0.23
Days away case rate (DACR): 0.23
No of days since a lost time accident: 70

The annual Level 1 exercise to demonstrate the adequacy of the site's emergency arrangements to the ONR took place on 4 July. This was described as: 'An excellent demonstration of our arrangements; that was in many areas exemplary, text book stuff.' by our former ONR Site Inspector, Nick Blackburn.

John McGough was appointed as the site's ONR Site Safety Inspector on 1 August.

On the 20 July, an individual suffered a personal injury as a result of a fall from height whilst using a companionway ladder on the pile cap fuelling machine. Fortunately, the individual did not sustain any significant injuries.

On the 23 August, a bag covering a footplate on the flask transporter was found to be above reportable levels on an incoming flask at Valley Railhead.

Monthly Target Zero Safety campaigns have been delivered throughout the reporting period covering the following topics: Environmental Performance, Electrical Safety, Radiological Protection and Fire Safety.

Visits

Nuclear Liabilities Fund Trustees – 20 June

Benllech Over 50's Group - 20 July
A presentation regarding the site's past, present and future was given to Benllech Over 50's group at the Ex-Servicemen's Hall on 20 July.

Workforce

As of 28 September, there were 304 employees and three Agency Supplied Workers on site (not including Security or Magnox Support Office staff based at Wylfa).

Regional meetings of the Wylfa and Trawsfynydd Site Joint Committees have commenced to discuss potential opportunities to maintain employment for Magnox staff at both sites.

A programme of equality, diversity and inclusion training for all staff will be delivered in the Autumn.

Wylfa in the community

It is great to see that the Welsh Government and the EU awarded Menter Môn's Morlais Tidal Energy Project £4.5m last week. This is really good news for Anglesey's economy and a fantastic opportunity to create sustainable jobs in the marine energy sector.

The NDA has supported the Morlais project with £300,000 seed funding during the last three years to help obtain planning consent and contracts to install the grid connection. The funding enabled Morlais to carry out environmental and biological surveys to gain Natural Resources Wales planning consent. It also supported the project to invite tenders for up to ten tidal energy developers to secure access to a berth in the West Anglesey Demonstration Zone - 14 showed an interest and eight developers were selected to join the project.

The NDA has awarded a 2m package of funding to support Grŵp Llandrillo Menai's plans to build a new four storey engineering skills centre at Coleg Menai's Llangefni Campus and transfer the existing engineering skills centre from the dated Bangor site. The new engineering skills centre will complement the Canolfan Ynni energy skills and construction centres that are already operational. Together, these facilities will create a world-class international training centre for engineering and energy-related sectors.

Wylfa donation

The playpark equipment, located in the grounds of the former Visitor Centre, has been donated to #Caru Amlwch community group who will relocate the equipment to Amlwch in the near future.

Anglesey Montage Writing Festival

66 people attended a programme of English and Welsh literacy workshops, sponsored by Magnox, at Ysgol David Hughes on the 9 September.

Quote for Anglesey Montager:

"The Magnox funding helped us reach writers of all levels, including absolute beginners, within our community and to give them unique opportunities to attend quality tutored workshops and develop their skills and motivation! Some have now sought out local writing groups to join and so continue their work.
Thus, this also benefits the existing writing groups across the area by attracting new members. This has enriched our community."

Magnox on the Maes

The National Eisteddfod of Wales, Bodedern was supported with £30,000 Magnox socio-economic funding from the NDA. Magnox exhibited a stand in the Science and Technology Pavilion, as part of the sponsorship package, which was staffed by over 40 volunteers from Wylfa, Trawsfynydd and Cavendish Nuclear throughout the week.

The stand displayed the Wylfa Story from the 1960s to the 2010s and engaged people of all ages with an interactive game that simulated waste segregation on Magnox sites. We are grateful to Môn Communities First for providing the materials and constructing the game board at the training academy's joinery workshop in Holyhead.

The interactive game was also in use at the NDA's National Stakeholder Workshop in September and is booked for the NDA's Supply Chain Event in November.

For more information and the latest news from Wylfa, visit:

https://magnoxsites.com
https://twitter.com/magnoxsites
https://www.linkedin.com/company/magnox
https://www.flickr.com/photos/magnoxsites

Adroddiad Cyfarwyddwr Safle Wylfa

12 Hydref 2017

Stuart Law

Crynodeb Cyfarwyddwr y Safle (Mehefin – Medi 2017)

Gweithredu ar safle Wylfa

Bu misoedd yr haf yn gyfnod heriol ar gyfer gwagio tanwydd oherwydd nifer y methiannau cyfarpar capiau peil a chyfyngiadau ar lenwi fflasgiau a achoswyd gan broblemau parhaus gyda'r craen trin fflasgiau. Am y rhan fwyaf o'r amser, ni fu modd inni gadw ond un o'r tair proses allweddol gwagio tanwydd yn weithredol. Fodd bynnag, rydym wedi cymryd y cyfle i wneud nifer o welliannau peirianneg a gwaith ymarferol ar y capiau peil i leihau peryglon tân a diogelwch cyffredinol yn ystod y cyfnod segur.

O 27 Medi, mae 45% o'r tanwydd wedi'i wagio o'r adweithyddion. Mae 7,544 o elfennau tanwydd sydd wedi cael ei ddefnyddio yn y celloedd storfa sych, yn barod i'w rhoi mewn fflasgiau, gyda 33,574 o elfennau tanwydd wedi'i ddefnyddio yn parhau yn adweithydd 1 a 19,769 yn adweithydd 2.

Codwyd plwg concrid naw tunnell Cell Storfa Sych 4 (DCS4) ym mis Gorffennaf am y tro cyntaf ers i'r gell gael ei hadeiladu a'i chomisiynu ar ddechrau'r 1970au. Ers hynny, mae'r tîm prosiect wedi bod yn ymgodymu â gweithio yn amodau C3 i roi'r cyfarpar adfer ar waith 7m i mewn i'r gell ac ymarfer y symudiadau manwl, anodd sy'n angenrheidiol i dorri a thynnu 37 o diwbiau sgip yn cynnwys gwastraff lefel canolradd. Cynhaliwyd adolygiad parodrwydd y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR) ac Asiantaeth yr Amgylchedd ym mis Medi ac o ganlyniad rhoddodd y rheoleiddwyr ganiatâd i'r prosiect gychwyn gweithrediadau adfer yn yr wythnos yn dechrau 2il Hydref.

Y plwg concrid yn cael ei godi



Yr arf craidd uwchben tiwb sgip

Ymwelodd yr ONR â'r safle ar 19 Gorffennaf i weld y cynllun Rheoli Asbestos diwygiedig ar waith. O hyn, bu modd i'r ONR weld bod Magnox wedi cwrdd â gofynion y Rhybudd Gwella ffurfiol a gyhoeddwyd ym mis Ebrill.

Mae tri thîm contractio'n cefnogi'r rhaglen waith asbestos:
Exova - sy'n gwneud profion aer ac archwiliadau asbestos.

Hertel - sy'n gyfrifol am waith adfer asbestos ar hyd a lled y safle, ac eithrio neuadd y tyrbinau.

Kaefer - y mae eu tîm o 80 o bersonél yn gyfrifol am dynnu swmp yr asbestos a'i reoli yn neuadd y tyrbinau. Mae'r pecyn gwaith hwn yn cynnwys tynnu'r holl ddeunydd lagio o'r pibellau a gyflenwodd y stêm i'r tyrbinau o bontydd peipiau 39m o hyd y ddau adweithydd.

Penodwyd Interserve fel cyflenwyr Rheolaeth Cyfleusterau Gwasanaethau Caled Wylfa ar 1 Mehefin. Maent bellach yn gyfrifol am sicrhau y caiff gwaith cynnal y craidd (a wnaed yn flaenorol gan gontractwyr Sifil a Thrydanol) ei gwblhau yn unol â chynllun yr orsaf yn ogystal â darparu gwasanaethau cefnogi.

Y Cyngor Diogelwch ac Amgylchedd Niwclear

Ar y safle cynhaliwyd un o gyfarfodydd rheolaidd Cyngor Diogelwch ac Amgylchedd Niwclear Magnox a darparwyd taith o gwmpas y safle ar gyfer sawl aelod allanol y diwrnod canlynol. Yr oedd eu sylwadau'n cynnwys:

- Balch o gydnabod staff brwdfrydig a gwybodus wrth gerdded o gwmpas y safle.
- Yr oedd yr ardaloedd i weld yn cael gofal da yn gyffredinol.
- Ymgysylltu da gyda chynrychiolwyr diogelwch y safle.
- Yr oedd y daith o gwmpas y safle yn dangos yn glir yr heriau i'r Cynllun Rheoli Asbestos fynd i'r afael â hwy - argymhellwyd mwy o feincnodi allanol ar gyfer staff y safle.
- Sylweddolwyd yr heriau cynnal a chadw o ganlyniad i oedran a chymhlethdod y cyfarpar llwybr tanwydd, ac roeddynt yn cefnogi'r amcangyfrifon gonest a realistig a gyflwynwyd o ran hyd y rhaglen.

Yr oedd y safle'n falch o dderbyn cefnogaeth a chyngor gan aelodau allanol a bydd yn gwneud gwaith dilynol ar rai o'r awgrymiadau mwyaf manwl drwy gynnal trafodaethau pellach gyda'r rhaglen asbestos.

Gweithredu ar safle Maentwrog – Andy McAteer

Dechreuodd cyfnod segur blynyddol Maentwrog ar 9 Mehefin pan gaewyd y ddau eneradur am 9.00am yn dilyn cyfnodau cynhyrchu estynedig i ostwng y llyn i'w lefel isaf arferol cyn mynd yn segur. Mae hyn er mwyn galluogi eil ail-lenwi'n raddol dros y pedair wythnos ddilynol tra bo'r cyfnod segur yn mynd rhagddo. Gostyngwyd y giât reoli ar y prif argae drwy efelychu gweithredu brys, a dechreuodd y gwaith o ddraenio'r twneli a'r piblinellau am 9.30am; cwblhawyd hyn mewn pryd i'r cyfnod segur ddechrau ar 12 Mehefin.

Gwnaed y gwaith atgyweirio a gynlluniwyd i'r ddau dwnnel gan Dyler & Butler, contractwyr twnelu. Bu staff y safle yn cynnal gwahanol archwiliadau i'r biblinell pwysedd isel.

Ymunodd Prentisiaid Môn, ar leoliad yn Wylfa, â thîm y safle, gan ennill gwahanol brofiadau yn eu hyfforddiant sgiliau.

Ar 4 Gorffennaf, dechreuodd gwaith ail-lenwi gyda'r twneli a'r piblinellau wedi'u hail-wefru o fewn 24 awr. Dychwelodd y ddau eneradur i wasanaeth ar 6 Gorffennaf.

Yr oedd y glaw o 1 Ebrill i 27 Medi yn 893.1mm

Mae cynhyrchu trydan ar hyn o bryd ar y blaen i'r targed ac yr oedd argaeledd yn 73%, sydd yn unol â'r cynllun gan gynnwys y cyfnod segur.

Yr Amgylchedd, Iechyd, Diogelwch ac Ansawdd (EHSS&Q)

Ystadegau diogelwch 3 Hydref 2017

Cyfradd cyfanswm y digwyddiadau a gofnodwyd (TRIR): 0.23
Cyfradd achosion diwrnodau i ffwrdd (DACR): 0.23
Nifer y diwrnodau ers damwain colli amser: 70

Cynhaliwyd yr ymarfer blynyddol Lefel 1 i ddangos digonolrwydd trefniadau argyfwng y safle i'r ONR ar 4 Gorffennaf. Cafodd ei ddisgrifio fel: "Arddangosiad rhagorol o'n trefniadau: a oedd mewn sawl maes yn rhagorol, yn union fel y dylai fod'. Gan ein cyn Archwilydd Safle ONR, Nick Blackburn.

Penodwyd John McGough fel Archwilydd Diogelwch Safle ONR ar 1 Awst.

Ar 20 Gorffennaf, dioddefodd unigolyn anaf personol o ganlyniad i syrthio o uchder wrth ddefnyddio ysgol 'companionway' ar beiriant tanwydd y cap peiliau. Yn ffodus, ni ddioddefodd yr unigolyn unrhyw anafiadau sylweddol.

Ar 23 Awst, canfuwyd bod bag a oedd dros blât troed ar y cludwr fflasgiau goruwch y lefelau adrodd ar fflasg yn dod i mewn ym mhen rheilffordd y Fali.

Cyflwynwyd Ymgyrch Ddiogelwch Targed Sero misol gydol y cyfnod adrodd yn cwmpasu'r meysydd canlynol: Perfformiad Amgylcheddol, Diogelwch Trydanol, Amddiffyn Radiolegol a Diogelwch Tân.

Ymweliadau

Ymddiriedolwyr y Gronfa Atebolrwydd Niwclear - 20 Mehefin

Grŵp Dros 50 Benllech - 20 Gorffennaf
Rhoddwyd cyflwyniad ar orffennol, presennol a dyfodol y safle i grŵp Dros 50 Benllech yn Neuadd y Cyn-filwyr ar 20 Gorffennaf.

Gweithlu

Ar 28 Medi roedd 304 o weithwyr a thri Gweithiwr a Gyflenwyd gan Asiantaeth ar y safle (heb gynnwys gweithwyr Diogelwch na staff Swyddfa Cymorth Magnox sydd wedi'u lleoli yn Wylfa).

Mae cyfarfodydd rhanbarthol Cydbwyllgorau Safle Wylfa a Thrawsfynydd wedi dechrau trafod cyfleoedd posibl i gynnal cyflogaeth ar gyfer staff Magnox ar y ddau safle.

Bydd rhaglen o hyfforddiant ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cael ei chyflwyno i'r holl staff yn yr Hydref.

Wylfa yn y gymuned

Mae'n wych gweld bod Llywodraeth Cymru a'r UE wedi dyfarnu £4.5m i Brosiect Ynni'r Llanw Morlais Menter Môn yr wythnos diwethaf. Mae hyn yn newyddion da iawn i economi Môn ac yn gyfle gwych i greu swyddi cynaliadwy yn y sector ynni morol.

Mae'r NDA wedi cefnogi prosiect Morlais gyda chyllid o £300,000 yn ystod y tair blynedd diwethaf i helpu i gael caniatâd cynllunio a chontractau i osod cysylltiad â'r grid. Bu'r cyllid yn fodd o alluogi Morlais i gynnal arolygon amgylcheddol a biolegol i ennill caniatâd cynllunio gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Rhoddodd gefnogaeth hefyd i'r prosiect wahodd tendrau i hyd at ddeg o ddatblygwyr ynni llanw sicrhau mynediad i gyfleuster ym Mharth Arddangos Gorllewin Ynys Môn - dangoswyd diddordeb gan 14 a dewiswyd wyth datblygwr i ymuno yn y prosiect.

Mae'r NDA wedi dyfarnu pecyn o gyllid £2m i gefnogi cynlluniau Grŵp Llandrillo Menai i adeiladu canolfan sgiliau peirianneg newydd pedwar llawr ar Gampws Coleg Menai yn Llangefni a throsglwyddo'r ganolfan sgiliau peirianneg presennol yno o'r safle ym Mangor sydd wedi dyddio. Bydd y ganolfan sgiliau peirianneg newydd yn ategu canolfannau sgiliau ynni ac adeiladu y Ganolfan Ynni sydd eisoes yn weithredol. Gyda'i gilydd, bydd y cyfleusterau hyn yn creu canolfan hyfforddi ryngwladol o safon byd ar gyfer sectorau peirianneg a chysylltiedig ag ynni.

Rhodd gan Wylfa

Mae offer y parc chwarae a leolir ar dir y cyn Ganolfan Ymwelwyr wedi ei roi i grŵp cymunedol #Caru Amlwch a fydd yn adleoli'r offer i Amlwch yn y dyfodol agos.

Gŵyl Ysgrifennu 'Montage' Môn

Mynychodd 66 o bobl raglen o weithdai llythrennedd Cymraeg a Saesneg, a noddwyd gan Magnox, yn Ysgol David Hughes ar 9 Medi.

Dyfyniad ar gyfer Montage Môn:

"Bu cyllid Magnox o gymorth i ni gyrraedd ysgrifenwyr o bob lefel, gan gynnwys dechreuwyr llwyr, o fewn ein cymuned a rhoi cyfleoedd unigryw iddynt fynychu gweithdai o ansawdd gyda thiwtoriaid a datblygu eu sgiliau a'u cymhelliant! Mae rhai

bellach wedi canfod grwpiau ysgrifennu lleol i ymuno â nhw a thrwy hynny barhau â'u gwaith.
O'r herwydd, mae hyn o fudd i grwpiau ysgrifennu sydd eisoes yn bodoli ar draws yr ardal drwy ddenu aelodau newydd. Mae hyn wedi cyfoethogi ein cymuned."

Magnox ar y Maes

Cefnogwyd Eisteddfod Genedlaethol Cymru ym Modedern gyda £30,000 o gyllid cymdeithasol-economaidd Magnox gan yr NDA. Yr oedd Magnox yn arddangos stondin yn y Pafiliwn Gwyddoniaeth a Thechnoleg, fel rhan o becyn nawdd, yn cynnwys staff o dros 40 o wirfoddolwyr o Wylfa, Trawsfynydd a Cavendish Nuclear gydol yr wythnos.

Yr oedd y stondin yn arddangos Stori Wylfa o'r 1960au i'r 2010au ac yn ymgysylltu â phobl o bob oed gyda gêm ryngweithiol a oedd yn efelychu gwahanu gwastraff ar safleoedd Magnox. Rydym yn ddiolchgar i Gymunedau yn Gyntaf Môn am ddarparu'r deunyddiau ac am adeiladu'r bwrdd gêm yng ngweithdy saernïaeth yr academi hyfforddi yng Nghaergybi.

Cafodd y gêm ryngweithiol ei defnyddio hefyd yng Ngweithdy Cenedlaethol Rhanddeiliaid ym mis Medi ac mae wedi'i harchebu ar gyfer Digwyddiad Cadwyn Gyflenwi NDA ym mis Tachwedd.

I gael rhagor o wybodaeth a'r newyddion diweddaraf o Wylfa, ewch i:

https://magnoxsites.com
https://twitter.com/magnoxsites
https://www.linkedin.com/company/magnox
https://www.flickr.com/photos/magnoxsites